NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gorwres microdon y bledren a chemotherapi ar gyfer canser y bledren nad yw'n ymwthio i'r cyhyrau

19 Medi 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio ar gyfer canser y bledren nad yw'n ymwthio i'r cyhyrau, ac mae rhai digwyddiadau andwyol tra hysbys. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor.

Caiff y driniaeth hon ei defnyddio i drin canser y bledren yn ystod y camau cynnar, cyn neu ar ôl cael triniaeth. Rhoddir cathetr (tiwb) i mewn i'r bledren drwy'r wrethra (y bibell sy'n cario wrin allan o'r corff o'r bledren). Yna caiff cyffuriau cemotherapi eu pasio drwy'r tiwb hwn i'r bledren. Mae'r cathetr hefyd yn creu microdonnau sy'n cynhesu wal y bledren. Y nod yw gwella effaith cemotherapi ar y celloedd canser.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3090-6

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights